
Penderfyniad i wneud Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Troswyr Symudol) (Eithriad) 2022

Gweithredu penderfyniad Ofcom i ymestyn amrediad y troswyr ffôn symudol sefydlog dan do sydd ar gael i bobl eu prynu a'u gosod eu hunain heb orfod cael eu trwyddedu

DATGANIAD:

Dyddiad cyhoeddi: 27 Mai 2022

1. Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn disgrifio penderfyniad Ofcom i wneud rheoliadau newydd drwy offeryn statudol. Mae'r rheoliadau hyn yn gweithredu penderfyniad Ofcom, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2021 ("**Datganiad Troswyr 2021**")¹, i ymestyn yr amrediad o ddyfeisiau troswr ffôn symudol y gall pobl eu gosod eu hunain heb orfod cael trwydded.

Yr hyn rydym wedi'i benderfynu - yn gryno

Gan ddilyn ymgynghoriad ar ein cynnig i wneud rheoliadau, mae'r datganiad hwn yn cadarnhau² ein bod wedi penderfynu bwrw ymlaen ag ymestyn yr amrywiaeth o droswyr ffôn symudol dan do statig sydd wedi'u heithrio rhag cael eu trwyddedu a all gael eu hunanosod trwy wneud rheoliadau newydd, y Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Troswyr Symudol) (Eithriad) 2022 (y "**Rheoliadau**").

Mae'r rhain yn **dirymu ac yn ddisodli** r rheoliadau eithriad trwydded ar gyfer troswyr ffôn symudol a wnaed gan Ofcom yn 2018.³ Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â gwneud y Rheoliadau ar ôl i ni ystyried y pedwar ymateb i'n hymgyngoriad. Gan gymryd yr ymatebion hynny i ystyriaeth, ac er mwyn darparu gwell eglurder mewn rhai manau, rydym wedi gwneud rhai mân ddiwygiadau i'r Rheoliadau rydym wedi ymgynghori arnynt. Gwnaed y rheoliadau ar 26 Mai 2022 a byddant yn dod i rym ar 16 Mehefin 2022.

Mae'r Rheoliadau'n gwneud y canlynol:

- **Ymestyn** meini prawf yr eithriad trwydded i gwmpasu dyfeisiau sy'n gweithredu ar amleddau mwy nag un gweithredwr symudol. Yn benodol, maent yn caniatáu ar gyfer defnyddio troswyr sy'n 'benodol i ddarparwyr' a throswyr ar gyfer 'gweithredwyr lluosog', ar yr amod eu bod yn bodloni gofynion technegol penodol; a
- **Chaniatáu** ar gyfer defnydd heb orfod cael trwydded o ddyfeisiau troswr symudol dan do statig sy'n chwyddo signalau'n ychwanegol at y rhai a gludir ar rwydweithiau 2G, 3G a 4G (gan gynnwys, er enghraifft, signalau 5G).

Trwy wneud y Rheoliadau, mae Ofcom yn gobeithio cefnogi wrth ddarparu dewis ehangach o ddyfeisiau troswr er mwyn helpu defnyddwyr i ymdrin â'u problemau darpariaeth dan do.

Dim ond crynodeb lefel uchel wedi'i symleiddio sydd yn adran trosolwg y ddogfen hon. Mae'r penderfyniadau rydym wedi eu gwneud a'n rhesymeg wedi'u nodi yn y ddogfen lawn.

¹ [Datganiad Troswyr 2021: Troswyr ffôn symudol - Ofcom](#)

² <https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-3/wireless-telegraphy-mobile-repeater-exemption-regulations-2022>

³ [Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr \(Troswyr Symudol\) \(Eithriad\) 2018](#). Fel yr esbonnir yn Adran 3, rydym yn symud y rheolau ar droswyr o fewn cerbydau i mewn i'r Rheoliadau er mwyn sicrhau bod y rheolau ar droswyr symudol wedi'u cynnwys yn yr un lle. Fodd bynnag, nid ydym yn addasu'r gofynion technegol sy'n berthnasol i droswyr o fewn cerbydau mewn unrhyw ffordd.